**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 4 IONAWR 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Meinir James, Eifion Jones, Carys Thomas, Nicola Jones, Elfyn Williams ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Rheinallt Jones a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd bod lefelau goleuo allanol wedi gostwng yn ddiweddar. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Nodwyd bod y mater yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a bod 3 achos o'i flaen yn aros am ddarpariaeth o arolygydd penodedig.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **Cynnig am gwelliannau heol ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
8. **Gwylio Cyflymder Cymunedol –** Cafwyd cadarnhad gan yr Heddlu:
    - Nid oedd unrhyw ddisgwyliad ynghylch pa mor aml y byddai gwirfoddolwyr yn gwylio cyflymder;
    - Roedd disgwyl i leiafswm o 2 unigolyn fod mewn lle gyda'i gilydd ar bob achlysur;
    - O ran y troseddau a nodwyd, bydd y cydlynydd arweiniol yn derbyn e-bost gyda dolen sy'n mynd â nhw drwodd i borth GCC. Trwy hyn gellir mewnbynnu'r manylion gofynnol, dyddiad, amser, cofrestriad cerbyd ac yn y blaen. Gyda'r gwybodaeth hyn byddai Heddlu Gogledd Cymru yn anfon llythyr rhybudd i'r cerbyd sy'n troseddu.

    Derbyniwyd e-bost hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar sesiwn wybodaeth oedd yn cael ei chynnal ar 8fed Chwefror ar y pwnc. Bydd y Cynghorwyr Nicola Jones a Jenny Jones yn edrych i fynychu.

9. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Cytunwyd hefyd i ofyn am gael bin yn Heol y Lan.
10. **Ymweliad posib â Gwaith Trin Dŵr Carwe –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
11. **Actif Sir Gâr** – Derbyniwyd cadarnhad bod enwebiad y Cyngor o Jamie Stiles ar gyfer Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y seremoni wobrwyo. Cytunwyd i'r Cadeirydd fynychu'r digwyddiad ar ran y Cyngor a chymeradwywyd y gost o £10.
12. **Rhoddion i Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch a Neuadd Gymunedol Llandyfaelog** – Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am y cyfraniadau a wnaed. Nodwyd.
13. **Bin yng Nghapel Penygraig –** Cadarnhaodd y Cyng Meinir James y byddai bin newydd yn cael ei ddarparu yn y lleoliad. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth ar arolwg Argyfwng Costau Byw. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd dros dro yr U2207 yn Idole ar y 4ydd Fawrth. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyflwyniad ar Gorfodaeth Cynllunio. Nodwyd.
4. **Coedwigoedd Gorllewin Cymru** – Cylchlythyr Rhagfyr 2023. Nodwyd bod y cylchlythyr wedi'i bostio heb ddigon o bost, gan olygu bod taliad o £2.50 wedi'i wneud i'r swyddfa bost. Bydd y gohebydd yn cael gwybod am y mater hyn. Nodwyd.
5. **Fforwm Mynediad Cenedlaethol** – Diweddariad Rhagfyr ar y Côd Cefn Gwlad. Nodwyd.
6. **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys** – Bwletin. Nodwyd.
7. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cylchgrawn Calon Tân. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Dyddiadau Hyfforddiant Ionawr, Chwefror a Mawrth. Nodwyd.
9. **Y Grid Genedlaethol** – Diweddariad ar yr Is-orsaf newydd arfaethedig yn Llandyfaelog. Roedd y diweddariad yn darparu ar gyfer ymgynghoriad i'r Cyngor Cymuned ar yr eiddo i dderbyn llythyr ymgynghori ar y cynnig bydd yn dod. Cytunwyd i ofyn i'r ardal hon gynnwys yr holl eiddo gan cynnwys busnesau yn Ardal Gymunedol Llandyfaelog.
10. **Senedd Cymru** - Ymgynghoriad: Cysylltiadau Cyllidol Rhynglywodraethol. Nodwyd.
11. **Llywodraeth Cymru** – Ymgynghoriad: Dibenion gwariant yn y dyfodol ar gyfer cyllid asedau segur yng Nghymru. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad 1/3ydd o Precept 2023-24 sef £8,460.00. Nodwyd.
13. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Rhagfyr. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
15. **Ymgyrch Hedgehogs R Us –** Cais i'r Cyngor ystyried darparu arwyddion rhybudd ar gyfer draenogod ar ochr y ffordd. Nodwyd.
16. **Banc Barclays –** Datganiadau. Cydlofnodwyd y cysoniad banc gan y Cyng Jenny Jones.

## 7. Cae Idole ac Amwynderau’r Cyngor

1. **Diffibrilwyr**

   Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cwrdd gyda'r gwasanaeth ambiwlans, ac wedi derbyn cadarnhad eu bod yn medru darparu padiau a batris ar gyfer Diffibrilwyr Zol AED Plus.

   Dyma'r diffibrilwyr a ddefnyddiwyd gan y Cyngor ym mhob lleoliad heblaw Cwmffrwd ac Idole, ble roedd yna unedau Zol AED 3. Roedd y padiau yn y ddau hyn i fod i ddod i ben ym mis Mai.

   Nodwyd bod Uned Croesyceiliog wedi'i defnyddio'n ddiweddar mewn argyfwng, roedd padiau newydd felly wedi'u ddarparu.

2. **Archwiliad Cae Chwarae**

   Cadarnhaodd y Clerc bod y rhannau a archebwyd i'w gael eu dderbyn yn ystod mis Ionawr.

3. **Coed ar gyfer Cae Idole**

   Nododd y Cadeirydd a'r Clerc costau coed posibl ar gyfer gwahanol rywogaethau. Cymeradwywyd prynu dwy goeden gyda chyllideb o £200 ar gael

4. **Cytundeb Torri Gwair 2024**

   Dosbarthodd y Clerc ddogfen dendr ddrafft ar gyfer y cytundeb torri gwair yn Gae Idole a Glanmorlais ar gyfer 2024. Cymeradwyodd y Cyngor y tendr a bydd yn gofyn am brisiau yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. **Arwyddion Cyflymder**

   Darparodd y Clerc gwybodaeth am gost arwyddion Adnabod Cyflymder o Westcotect. Nodwyd, gyda caniatad yr Heddlu, gellid defnyddio'r rhain i ddarparu llythyr rhybuddio neu ddirwyon i gerbydau sy'n cyflawni troseddau, bydd y Clerc yn gwirio gyda GanBwyll i weld a allai hyn fod yn wir yn Ardal Dyfed Powys.

## 8. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Rhagfyr gyda chyfanswm cost o £560.00, cymeradwywyd hyn. Darparwyd cynnig codi tâl fesul awr gan yr Atgyweiriwr ar gyfer y flwyddyn 2024-25, bydd y Clerc yn trafod hyn ymhellach gyda’r contractwr.

**9. Adroddiad Cyllid 2023-24**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 3ydd cwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

Cynhaliodd y Cadeirydd archwiliad o gofnodion ariannol 2023-24.

**10. Adroddiad Praesept, Blaenoriaethau a Chyllideb 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a nododd y sefyllfa ariannol debygol ar gyfer diwedd Blwyddyn Ariannol 2023-24.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a chytunodd i ofyn am braesept o £27,320 ar gyfer 2024-25 (£25,380 yn 2023-24). Byddai'r swm yn arwain at Dreth Gyngor Band D o £41.68 (£39.13 yn 2023-24). Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau a llofnodi'r gwaith papur angenrheidiol i'w ddychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn ymarferiad da i gadw tua 3 mis i flwyddyn o precept mewn arian wrth gefn cyffredinol a dylai clustnodi unrhyw gronfeydd ymhellach mewn arian wrth gefn penodol.

Gwnaed Cyngor ystyried ei blaenoriaethau ar gyfer arian wrth gefn y Cyngor. Cytunwyd arian wrth gefn penodol fel a ganlyn:

**Gwelliannau Goleuadau Cyhoeddus (gan gynnwys cost flynyddol yr uwchraddiad Goleuadau LED o £1,077.25) £4,000**
**Gwelliannau Amwynderau £3,000**
**Ardal Chwarae ac Amwynder Idole £7,000**

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda threfniadau ariannol y Cyngor.

**11. Strategaeth Buddsoddi 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc y Strategaeth Fuddsoddi drafft. Cymeradwywyd y Strategaeth fel Polisi'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25.

**12. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Archwilio Cymru** **£200.00** Archwiliad 2022-23

| **2.** | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Rhagfyr a costau** | **£722.43** | **£26.00<br>£7.00<br>£25.00<br>£10.50** | **£790.93** | **£298.60** | | **£492.33** |

3. **CTEM** **£1,000.20** Hydref – Rhagfyr
4. **Michael Leefe** **£560.00** Atgyweiriwr Rhagfyr (gweler eitem 8)
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£1,292.70** Costau uwchraddio LED 2023-24 (£1,077.25 gyda TAW £215.45)

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod difrod wedi ei achosi i Arosfan Bws Bancycapel. Roedd hyn wedi cael ei adrodd i'r Atgyweiriwr.
2. Nododd y Clerc bod llifogydd wedi bod yn eiddo'r Hen Ficerdy yn St Anne's Cwmffrwd. Adroddwyd hyn i'r Cyngor Sir.
3. Nodwyd materion llifogydd yng Nghroesyceiliog gyda'r angen oherwydd hyn i'r Cyngor Sir ysgubo'r ardal yn fecanyddol.
4. Nodwyd bod y Cyngor Sir yn cynnal eu hymgynghoriad cyllideb blynyddol.
5. Nodwyd materion llifogydd ger Cilgadan, lle bydd y posibilrwydd o gael gwared ar y palmant i gynorthwyo'r draeniad yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.
6. Nodwyd llifogydd ar y Ffordd rhwng Llandyfaelog a Bontantwn.
7. Bydd y Clerc yn gofyn am cadarnhad wrth First Cymru o'r sefyllfa mewn perthynas ag amlder gwasanaethau X11.
8. Nodwyd bod bolardiau rhybuddio ar ochr y ffordd wedi'u difrodi ar y ffordd rhwng Llandyfaelog ac Idole.
9. Nodwyd byddai noson gwis yn cael ei chynnal ar 26ain Ionawr yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.
10. Nodwyd bod CFfI Llanismel yn dathlu eu Pen-blwydd 90fed gyda chyfarfod i drafod digwyddiadau i'w gynnal ar nos Sul y 7fed o Ionawr am 8.00yh yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.
11. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod i ginio Nadolig y Cyngor.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 1af Chwefror 2024.**